

BE THE WAVE AR FRIG Y DON

O'r Ffynhonnell i'r Môr

Gwybodaeth Gefndirol



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

**MARINE
CONSERVATION
SOCIETY**



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a
Buddosoddi Ewropeaidd
European Structural
and Investment Funds**



Ariennir gan
Llywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



Sut mae sbwriel yn cyrraedd ein cefnforoedd?

Mae'r cefnfor yn ein cysylltu ni i gyd, mae'n enfawr. Gall fod yn syndod sylweddoli y gallai un diferyn o ddŵr deithio ledled y byd! Mae ein cefnforoedd wedi'u cysylltu ag ecosystemau dŵr croyw llynnoedd ac afonydd ar draws y blaned ac mae 97% o ddŵr y Ddaear yn y cefnforoedd. Mae'r cefnforoedd felly yn rhan annatod o'r cylch dŵr byd-eang.

Gan wybod pa mor gysylltiedig yw'r cefnforoedd i weithgarwch dynol, mae'n hynod bwysig cofio bod gan unrhyw ddeunydd gwastraff a waredwyd yn amhriodol, yn ogystal ag unrhyw ddeunydd sy'n cael ei gludo neu'i storio'n amhriodol y potensial i fod yn sbwriel morol. Mae gwastraff o'r tir yn cyrraedd y cefnforoedd yn bennaf drwy'r afonydd, ond mae llawer iawn o wastraff o'r diwydiant pysgota yn cael ei golli yn y cefnforoedd hefyd. Mae llygredd gwastraff yn cael effeithiau difrifol ar y cefnforoedd a'r bywyd gwyllt mae'n ei gefnogi. Yn ei dro mae hyn yn amharu ar ei weithgarwch a'i berfformiad gan effeithio ar fioamrywiaeth.

Mae sbwriel neu falurion morol yn bwnc lleol, cenedlaethol, rhanbarthol a byd eang pwysig a fydd yn parhau am ddegawdau eto. Er mwyn mynd i'r afael â llygredd yn cyrraedd y cefnforoedd, mae'n rhaid i ni dargedu ffynonellau'r broblem. Bydd angen i benderfyniadau polisi, negeseuon effeithlon ac anogaeth o newidiadau ymddygiad cadarnhaol chwarae rhan er mwyn llwyddo.

Amcangyfrifir bod tua 80% o sbwriel morol yn dod o ffynonellau'r tir ac mae'r 20% arall yn dod o ffynonellau'r cefnfor.

Afonydd a Nentydd

Mae ein cefnforoedd yn cysylltu â llynnoedd, afonydd a nentydd achos bod pob cefn deuddwr ar y Ddaear yn draenio i'r cefnforoedd. Mae afonydd a nentydd yn trosglwyddo creaduriaid, maetholion, halenau, gwaddodion a llygrwyr o'r cefnau deuddwr i'r aberoedd ac ymlaen i'r cefnforoedd. Mae afonydd yn darparu llwybrau cludo, dŵr i'w yfed a dyfrio tir amaethyddol, a phŵer ar gyfer cartrefi a diwydiannau. Maent yn creu cyrchfannau twristiaid ac yn hwyluso gweithgareddau hamdden megis cychod a physgota.

Gall gweithgaredd dynol niweidio cynefinoedd afonydd a'r rhywogaethau sy'n byw yno. Mae llygredd o ollyngiadau, dŵr ffo o dir amaethyddol, gorlifiadau carthion a llygredd plastig yn cael effaith negyddol ar ein hafonydd. Bydd cadw afonydd yn iach a chlr o fudd i dyfiant stoc pysgod, rhywogaethau brodorol ac yn cynyddu bioamrywiaeth. Gall lleihau rhwystrau mewn afonydd helpu bywyd gwyllt sy'n mudo a lleihau llifogydd posibl.

Mae llygredd plastig yn fwy na phroblem i'r cefnforoedd yn unig. Mae'n cael effaith negyddol ar lynnoedd, afonydd a chyrrff eraill o ddŵr mewndirol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r afonydd a'r llynnoedd yn bwydo gwastraff plastig yn uniongyrchol i'r moroedd. [Sut mae plastig yn cyrraedd y cefnforoedd o ardaloedd mewndirol?](#)

Mae afonydd mawr yn drawsgludwyr gwastraff plastig hynod o effeithlon i'r cefnforoedd, yn enwedig mewn gwledydd heb seilwaith rheoli gwastraff datblygedig. Adroddodd gwyddonwyr yng



Nghanolfan Helmholtz am Ymchwil Amgylcheddol fod hyd at [95% o blastig sy'n cael ei gludo gan afonydd yn dod o 10 afon yn unig.](#)

Mae'r fideo "[The World's Dirtiest River](#)" yn dangos llygredd arswydus afon Citarum yng Ngorllewin Java, gan bwysleisio'r broblem enfawr am iechyd ein cefnforoedd.

Yn y DU, mae ymchwil o astudiaeth newydd gan y Ymddiriedolaeth Gamlesi ac Afonydd [Canal & River Trust](#) wedi darganfod bod 24 miliwn o eitemau o blastig a sbwriel eraill yn cael eu taflu neu'u chwythu i mewn i gamlesi yn Lloegr a Chymru bob blwyddyn. Mae plastig gan gynnwys bagiau, poteli a phecynnu bwyd yn cyfrif am 59% o'r sbwriel yn y dyfrffyrdd erbyn heddiw. Mae'r adroddiad hefyd yn datgelu bod dros hanner miliwn o eitemau plastig yn cyrraedd y cefnforoedd bob blwyddyn gan gael eu gludo yno mewn afonydd a chamlesi.

Yn ddiweddar mae adroddiadau ar y newyddion yng Nghymru wedi bod yn edrych ar y broblem o sbwriel yn ein hafonydd

[Plastic Pollution. Litter in Cardiff Rivers Shocking](#)

[Flooding after Storm Dennis: Trail of river litter left behind](#)

Llygredd ar y Traethau

Mae'r digwyddiadau hyn yng Nghymru yn dangos lle mae sbwriel wedi cael ei adael ar y tir neu wedi'i golli ar y môr.

- [Barry Island: Litterbugs' complete disregard for beach.](#)
- [Storm Emma: Anglesey polystyrene clean-up intensifies.](#)
- [Plastic Cargo loss causing long term fear for coastlines.](#)
- [Ghost Gear: The Abandoned Fishing Nets Haunting Our Ocean – Greenpeace](#)

Lawr y Draen Storm.

Cofiwch mai "Dim ond Glaw i Lawr y Draen" yw'r neges allweddol ar ran yr hyn a ddylai fynd i lawr ein draeniau stryd. Credir bod y draeniau hyn wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith drin, ond yn y rhan fwyaf oachosion mae cynnwys y draeniau yn mynd yn syth i gefnau deuddwr neu'r môr lle y gall effeithio'n negyddol ar ein cyflenwadau dŵr yfed, bywyd gwyllt a defnydd hamdden o ardal.

O ganlyniad i ddiffyg ymwybyddiaeth, mae pobl hefyd wedi creu niwed yn anfwriadol drwy arllwys gwastraff megis hylifau glanhau, brasterau neu olewau, paent neu dŵr golchi ceir yn syth i lawr draen. Gall hyn arwain at effeithiau negyddol ar ansawdd dŵr afonydd, llynnoedd neu draethau gerllaw.

Mae ymgyrchoedd megis [Only Rain Down the Drain](#) a [The Yellow Fish Campaign](#) yn tynnu sylw at hyn. Mae'r adnodd ysgol [stormwater360](#) wedi cynhyrchu gweithgareddau dysgu hefyd.



Arnofio yn yr Awyr.

Gall y gwynt a'r glaw gynorthwyo taith sbwriel i'r môr, ond rhaid i ni hefyd feddwl am y pethau rydym yn gadael iddynt fynd yn fwriadol. Gall balwnau, llusernau awyr a tân gwyllt edrych yn wych, ond maen nhw'n gallu achosi problemau mawr. Unwaith y bydd yr eitemau hyn yn yr awyr, nid oes rheolaeth gennym drostynt fwyach a gallant deithio am filltiroedd. Gall y pethau hyn achosi llawer o ddifrod, yn enwedig os maent yn cael eu rhyddhau ar yr un pryd.

Gall balwnau gael eu camgymryd am fwyd gan fywyd gwyllt, ac unwaith y byddant yn cael eu bwyta, gallant rwystro systemau treulio, gan achosi i anifeiliaid lewygu. Gall anifeiliaid fynd yn sownd yn llinynnau balwnau a chael eu dal ynddo. Mae mwy o beryglon fyth gyda llusernau awyr gan y gallant achosi tanau ac yn cael eu camgymryd yn aml am arwyddion cyfyngder. Yn Chwefror 2018, cyflwynodd bob awdurdod lleol yng Nghymru waharddiadau gwirfoddol ar ryddhau llusernau awyr.

Ni ddylem anghofio tân gwyllt yn yr adran hon. Maent yn achosi tanau a damweiniau bob blwyddyn ac mae'r synau uchel a sydyn maen nhw'n eu gwneud yn dychryn anifeiliaid sy'n gallu achosi anafiadau. Gall tân gwyllt fod yn wenwynig sy'n golygu eu bod hefyd yn berygl i'r amgylchedd ac yn llygru'r awyr rydym yn ei anadlu. [Litter-from-the-Air-min.pdf \(keepwalestidy.cymru\)](#)

Mae'r Gymdeithas Gadwraeth Forol yn dweud wrthym fod balwnau sy'n cael eu gwerthu fel rhai "diraddiadwy" yn para sawl mis, hyd yn oed blynyddoedd ac maent yn gofyn i chi gefnogi'r ymgyrch "[Don't Let Go](#)"

Gallwch ddysgu mwy am hyn yn yr erthygl hon: [The Conversation about biodegradable balloons.](#)

Gwastraff i Lawr y Draeniau

Gall llygredd yn ein cefnforoedd ddod o'n cartrefi ein hunain. Gall sbwriel o garthion gynnwys eitemau sydd wedi cael eu fflysio lawr y toiled fel weips gwlyb, fflos dannedd a ffyn cotwm. Gall yr eitemau hyn achosi rhwystrau costus yn ein cartrefi, ein busnesau a'n systemau dŵr gwastraff. Gall hyn arwain yn y pendraw at garthffosydd yn gorlifo yn ein cymunedau a llygredd plastig mewn afonydd, ar draethau ac yn y cefnforoedd.

Gall microplastigau o nwyddau gofal personol fynd i mewn i'r draen pan yr ydym yn cael cawod ac mae microffibrau o'n dillad yn cael eu gollwng o'n peiriannau golchi. Mae'r ddau weithgaredd yn arwain at blastig yn cyrraedd a llygru'r dyfrffyrdd.



Beth allwn ni ei wneud i leihau faint o sbwriel sy'n cyrraedd y cefnforoedd?

Mae rhai mentrau gwych ar gyfer gwaredu sbwriel o'n dyfroedd, ond mae maint y broblem yn golygu y bydd echdynnu ond yn rhan o'r ateb. Mae angen mynd i'r afael â gofynion gwastraff ar y tir o weithgynhyrchu i ddosbarthu er mwyn ei atal rhag dod yn llygredd morol yn y lle cyntaf.

Yn y DU a'r rhan fwyaf o Ewrop, mae system ffurfiol o gasglu, cludo, trin a gwaredu gwastraff. Nid yw hyn yn digwydd ym mhob gwlad yn y byd ac mae gan rai gwledydd gyfleusterau anffurfiol neu ddim byd hyd yn oed. Mae rhaid mynd i'r afael â'r broblem hon a buddsoddi mewn isadeileddau ac arferion rheoli gwastraff.

Mae'r rhan fwyaf o amgylcheddwyr yn canolbwyntio ar atal sbwriel a gydag ymwybyddiaeth gynyddol o effeithiau sbwriel morol, mae mwy o ddeddfau wedi'u pasio gan lywodraethau a sefydliadau rhyngwladol yn erbyn gwaredu sbwriel yn y cefnforoedd.

Rydym yn cynhyrchu mwy o wastraff wrth i ni ddefnyddio mwy o nwyddau a chynhyrchion. Mae methiant i weithredu deddfwriaeth hefyd yn ffactor arwyddocaol, ond mae effaith ddefnydd dynol a dewisiadau gwaredu yn chwarae rhan enfawr y mae angen mynd i'r afael â hi'n fyd-eang.



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru



Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13